Cymunedau Bregus

Pwy sy'n rhedeg y Siopau Gwyddoniaeth?

Caiff brosiect y Siopau Gwyddoniaeth ei redeg gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, yn Ne-Ddwyrain Cymru. Mae'r prifysgolion yn gobeithio annog pobl Cymru i deimlo'n fwy cyffyrddus yn defnyddio eu gwasanaethau addysgol a gwasanaethau eraill.

Pwy sy'n talu am y Siopau Gwyddoniaeth?

Adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n talu am y Siopau Gwyddoniaeth. Am y rheswm hwn, gallant gynnig gwasanaethau ymchwil naill ai am ddim neu am bris isel iawn i grwpiau cymunedol yng Nghymru. Mae ariannu ar gael i Siopau Gwyddoniaeth Cymru gan Gyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru (HEFCW) am 2006-2008.

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Ble medrai ffeindio siop wyddoniaeth?

Mae'r brif ganolfan ym Mhrifysgol Morgannwg yn Nhrefforest ac mae yna dair siop wyddoniaeth leol:

* Eglwys Sant Joseff, Teras Sant Joseff, Cwmaman
* Capel Trerhondda, Y Strand, Glyn-rhedynnog
* Gates Morgannwg, 121 Y Stryd Fawr, Merthyr Tudful.

Mwy o wybodaeth?

Os oes gennych broblem yr hoffech i Siopau Gwyddoniaeth Cymru edrych arni, galwch ni ar 0845 841 3545 neu ebostio scishopw@glam.ac.uk

Gallwch hefyd alw heibio yn un o'n siopau a siarad ag un o'r staff yn uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth ar Siopau Gwyddoniaeth Cymru ewch at ein gwefan: www.scienceshopswales.org.uk

Am ragor o wybodaeth ar waith y siopau gwyddoniaeth ar draws y byd, ewch at wefan Living Knowledge: www.scienceshops.org

University of Wales, Newport

Prifysgol Cymru, Casnewydd

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU

Gwybodaeth at wasanaeth y gymuned

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Beth yw Siop Wyddoniaeth?

Nid y math arferol o siop yw Siopau Gwyddoniaeth. Unedau bach mewn cymunedau lleol yw rhain sydd yn gwneud ymchwil gwyddonol ar gyfer grwpiau cymunedol. Mae nifer ohonynt yn bodoli eisoes mewn gwledydd ar draws Ewrop a gweddill y byd.

wetenschapswinkel.be
시민참여연구센터 Center For People's Participatory Research
Wissenschafts LADEN GRAZ
科学商店 (Science Shop)
Boutique des Sciences
WISSENSCHAFTSLADEN BONN

Rhai o'r nifer o siopau gwyddoniaeth ar draws y byd

Pa fath o broblemau fedr Siop Wyddoniaeth eu taclo?

Gall ‘gwyddoniaeth’ olygu bron unrhyw bwnc cyn belled ag y gallwn ddefnyddio ymagwedd resymegol. Gallwn wneud prosiectau ar bynciau megis yr amgylchedd, iechyd, problemau cymdeithasol, neu hyd yn oed hanes a’r gyfraith.

Enghreifftiau o brosiectau Siopau Gwyddoniaeth Cymru

* Helpu pobl leol i wneud archwiliad bioamrywiaeth o amgylch eu pentref
* Astudio sut i ailstocio afon â physgod wedi iddynt gael eu lladd gan lygredd
* Helpu grwpiau elusennol i ffeindio ffyrdd o godi arian

Mae pobl leol yng Nghwmaman yn cydweithio â’r arbenigwyr i gofnodi’r bywyd gwyllt a’r planhigion yn yr ardal

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Gwasanaethu’r Cymuned Cymunedau Bregus

Beth sy’n digwydd pan ddof i â problem at Siop Wyddoniaeth?

Byddwch yn siarad ag aelod o’n staff ynglŷn â’r broblem sydd gan eich cymuned. Os oes digon o wybodaeth ar gael yn barod i’ch helpu, bydd y Siop Wyddoniaeth yn cael o hyd iddi i chi. Gallent hefyd eich helpu i ddefnyddio’r wybodaeth i ddatrys eich problem

Os nad oes gwybodaeth ddefnyddiol ar gael, efallai bydd y Siop Wyddoniaeth yn gallu helpu. Bydd rhaid ichi ddweud gymaint fedrwch chi wrthynt am y broblem a’r gymuned er mwyn penderfynu sut i ymwneud â’r gwaith ymchwil.

Pwy yn union wnaiff yr ymchwil?

Mae yna nifer o bobl allai gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae gan y Siop Wyddoniaeth dîm o ymchwilwyr hyfforddedig. Gallai peth o’r ymchwil gael ei wneud gan fyfyrwyr prifysgol a’u tiwtoriaid. Rydym yn credu ei fod yn bwysig bod staff a myfyrwyr prifysgolion Cymru yn defnyddio eu haddysg a’u hadnoddau i helpu eu cymunedau lleol i ymdrin â phroblemau go iawn.

Weithiau, myfyriwr fydd y person gorau i wneud y gwaith ymchwil. Yn yr achos hwn, bydd rhaid ichi gwrdd ag ef neu hi gyda’r tiwtor i drafod y broblem a chytuno sut i ymdrin â’r prosiect.

Serch hynny rydym yn awyddus i chi, fel aelodau o grwpiau cymunedol, gael y cyfle i gymryd rhan mewn prosiectau, os mynnwch chi. Bydd staff y Siopau Gwyddoniaeth yn rhoi’r hyfforddiant, cyfarpar a digonedd o gefnogaeth i chi yn ystod y prosiect. Os cymerwch ran neu beidio yn yr ymchwil, byddwn yn eich cwrdd yn aml i drafod y cynnydd.

Pan fydd wedi gorffen, byddwn yn cynhyrchu adroddiad ar y cyd a sicrhau bod grwpiau eraill yn gallu defnyddio’r wybodaeth. Gallwn sicrhau bod y wasg leol â gwybodaeth am y prosiect. Gallwn hefyd eich helpu i gymryd y camau nesaf wrth ddefnyddio canlyniadau’r ymchwil. Wedyn, byddwn yn edrych nôl gyda’n gilydd i asesu llwyddiant y prosiect ac a oes yna wersi gallwn ei ddysgu i’n helpu â’n brosiectau yn y dyfodol.

Gwnaeth Siopau Gwyddoniaeth Cymru ymchwil ar ran Cymdeithas Pysgotwyr Merthyr

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk